

CYNLLUN DARLLEN Genesis 1-11

Pwrpas yr astudiaethau hyn yw dy helpu i ddarllen 11 pennod gyntaf llyfr Genesis. Gan fod Genesis yn rhoi hanes dechrau'r byd mae wedi cael mwy o sylw a mwy o gwestiynau yn cael eu gofyn amdano nag unrhyw un o lyfrau eraill y Beibl. Ond, nid llyfr gwyddonol yw Genesis na chwaith rhyw lyfr hudol yn rhoi manylion sut y daeth y byd i fod. Llyfr yw am Dduw. Ystyr Genesis yw dechrau, ac felly byddwn yn dysgu am ddechrau'r byd, dechrau pobl, dechrau problemau a dechrau cynllun Duw i'n hachub ni!

Mae Duw yn siarad gyda ni drwy'r Beibl, felly mae'n bwysig iawn ein bod ni yn ei ddarllen ac yn meddwl yn ofalus beth mae Duw yn ei ddweud wrthym ni drwyddo fo. Efallai y bydd yn help i ti gael papur a beiro wrth law i gymryd nodiadau. Cyn darllen, gweddïa y bydd Duw'n siarad â thi ac yn dy helpu i ddeall ei Air, ac y bydd Ef yn defnyddio'r Beibl i newid dy fywyd. Ar ddiwedd pob astudiaeth mae'n bwysig iawn dy fod yn gweddïo ac yn siarad gyda Duw am beth rwyt ti wedi ei ddysgu a'r pethau rwyt ti eisïau eu newid yn dy fywyd di.

Felly paid â disgwyl y byddi'n darllen am ddinosoriaid yn Genesis – fyddi di ddim. Paid chwaith â meddwl y cei wybod sut wnaeth Duw greu'r bydysawd. Be gei di yma yw gwybod pwy yw Duw, pwy wyt ti a pham rydym ni ar y ddaear yma. Felly heb oedi mwy... i ffwrdd â ni!

Adran 1: Duw

Genesis: y dechrau, cychwyn y byd. Ond roedd Duw yno cyn y cyfan. Yn y dechreuad roedd... Duw.

Dydd 1: Genesis 1:1-2 a Colosiaid 1:15-17

- Pwy greodd y 'nefoedd a'r Ddaear'?
- Pwy felly sydd bia'r nefoedd, y ddaear a'r cyfan sydd ynddo?
- Pam wyt ti'n meddwl fod gymaint o bobl yn cael trafferth i gredu fod Duw wedi creu'r byd?

Yng Nghymru heddiw mae nifer o bobl yn meddwl mai trwy siawns y daethom i fod. Ond mae Genesis yn dweud yn glir mai Duw a'n creodd ac mai ei bobl Efydym ni.

Adran 2: Dechrau'r Cyfan

Wyt ti'n cofio'r teimlad yna o gael llyfr newydd ar ddechrau blwyddyn yn yr ysgol? Yr holl dudalennau gwag, gwyn a glân yn llawn potensial i ti eu llenwi. Yma gwelwn Dduw yn dechrau llenwi'r Ddaear oedd yn afluniaidd a gwag.

Dydd 2: Genesis 1:1-25

- Sut mae Duw yn dod a phethau i fodolaeth a beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am ei bŵer?
- Beth am restrï'r hyn a chreodd Duw ar bob dydd?

Dydd 1	
Dydd 2	
Dydd 3	
Dydd 4	
Dydd 5	
Dydd 6	

***Sylwa –
Duw da a
phwerus***

- Mae Duw yn dweud lawer gwaith fod y cyfan yn dda – pa bethau yng nghreadigaeth Duw sy'n gwneud i ti ryfeddu?

Drwy gydol Genesis gwelwn drosodd a throsodd fod Duw yn rhyfeddol, ei fod yn bwerus ac yn gymaint mwy nag y gallem ni byth ddychmygu. Mae hefyd yn hollol dda a sanctaidd. Mae hyn yn golygu fod pob dim mae e'n ei greu yn dda, ei weithredoedd yn berffaith dda ac nid oes dim drwg ynddo o gwbl.

Dydd 3: Genesis 1:26-31

- Beth yw'r gwahaniaeth rhyngom ni a gweddill yr anifeiliaid?
- Beth yw dau brif waith dynoliaeth?
- Mae Duw yn dweud ein bod ni wedi ein creu 'ar ein delw' – mae hyn yn golygu ein bod yn debyg iawn i Dduw. Ym mha ffordd ydyn ni'n debyg i Dduw?
- Beth yw barn Duw ar y greadigaeth (ad. 31)?

Dydd 4: Genesis 2:1-3

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng dydd saith a gweddill y dyddiau?
- Os yw Duw yn gweithio a gorffwys, beth ddylem ni wneud?
- Oes rhannau o dy fywyd di lle mae'n rhaid i ti weithio'n galetach neu orffwys mwy?

Dydd 5: Genesis 2:4-17

- Sut le yw gardd Eden a beth mae hyn yn ei ddweud am Dduw?
- Beth oedd y gorchymyn a roddodd Duw i Adda?
- A oes rheswm gan Dduw dros rhoi'r gorchymyn hwn?

Dydd 6: Genesis 2:18-25

- Pam bod Duw wedi creu dynion a merched?
- Beth mae'r adnodau yma yn dweud am berthynas dyn a dynes?
- Wyt ti'n meddwl yn gywir am ferched/bechgyn?

Dydd 7: Darllena Genesis 1 a 2 unwaith eto

Ysgrifenna i lawr dy ymatebion i'r cwestiynau isod.

- Beth mae'r adnodau yma'n dweud am Dduw?
- Beth mae'r adnodau yma'n dweud am y ddaear?
- Beth mae'r adnodau yma'n dweud am ddynion a merched?

Yn yr adnodau yma rydym wedi gweld y darlun mawr! Pobl Dduw yn byw yng ngardd Duw ac yn mwynhau bendith Duw wrth fyw o dan Ei arglwyddiaeth. Mae'r byd yn berffaith ac mae Adda ac Efa mewn perthynas berffaith gyda'i gilydd a chyda Duw. Mae ganddynt ddau waith sef i amlhau ac i edrych ar ôl creadigaeth Duw.

Adran 3: Pethau'n mynd o'i le (Y Cwmp)

Wrth ddarllen pennod 1 a 2, wyt ti'n sylweddoli ar wahaniaeth mawr rhwng y byd perffaith a greodd Duw a'r byd sydd o'n cwmpas ni heddiw? Beth sydd wedi digwydd? Mae yna newid mawr yn digwydd yma ym mhennod 3.

Dydd 8: Genesis 3:1-5

- Sut mae'r sarff (y diafol) yn perswadio Efa i gwestiynu beth mae Duw wedi ei ddweud?
- Ym mha ffordd mae'r diafol yn dy demtio di i wrthryfela yn erbyn Duw, neu i amau yr hyn mae Duw wedi ei ddweud?

Drwy gydol Genesis gwelwn fod pobl yn gwrthryfela yn erbyn Duw. Os yw pobl am droi cefn ar Dduw, yna mae'n rhaid wynebu'r canlyniadau. Mae gan bechod ganlyniadau bob tro – mae Duw yn cosbi pechod a phobl sy'n pechu. Oherwydd pechod daeth marwolaeth i'r byd.

Dydd 9: Genesis 3:6-13

- Mae Adda ac Efa yn gwrthryfela yn erbyn Duw – beth sydd wedi digwydd i'w perthynas gyda Duw?
- Pam mae Duw yn gofyn i Adda ble mae ef?
- Pa effaith mae pechod wedi'i gael?

Dydd 10: Genesis 3:16-19

(Fe ddown ni nôl i adnodau 14-15 mewn rhai dyddiau)

- Gan fod Adda ac Efa wedi gwrthryfela yn erbyn Duw mae yna ganlyniadau – beth yw'r canlyniadau i:
 - berthynas gŵr a gwraig?
 - teyrnasu dros y greadigaeth?
 - bod yn ffrwythlon ac amlhau?
- Ym mha ffordd mae pechod wedi difetha'r byd yr ydym yn byw ynddo heddiw?

Dydd 11: Genesis 3:20-24

- Er bod Adda ac Efa wedi pechu, mae Duw yn dal i ofalu amdanynt – beth mae'n ei wneud?
- Beth nad oedd y ddau yn cael ei wneud – pam fod hyn yn newyddion drwg?

Dydd 12: Genesis 3:14-15

- Beth mae Duw yn ei ddweud wrth y sarff (y diafol)?
- Yn adnod 15 mae Duw yn sôn am 'had y wraig'. Beth fydd yn ddigwydd i had y wraig a beth fydd e'n ei wneud? Pwy ti'n meddwl yw y berson hwn?
- Beth fydd yn digwydd i had y wraig?

Dydd 13: Genesis 3 a Rhufeiniaid 5:12

- Ym mha ffordd wyt ti'n debyg i Adda?
- Beth, yn ein byd ni heddiw, sy'n dangos ein bod i gyd yn bechaduriaid?
- Beth, yn dy fywyd di, sy'n dangos dy fod yn bechadur?
- Newyddion drwg – mae pobl wedi troi eu cefnau ar Dduw ac wedi penderfynu peidio â gwranddo arno. Mae'r gwrthryfel yma (mae'r Beibl yn ei alw'n pechod) wedi difetha'r ddaear, difetha'n perthynas gyda'n gilydd ac wedi difetha'n perthynas gyda Duw.
- Ond, pa obaith sydd gennym? Darllena Rhufeiniaid 5:15.

Adran 4: POBL

Sylwa – Pechod a chanlyniadau

Sylwa – Paid Cymysgu

Pan fyddwn yn sôn am ganlyniadau pechod, nid yw'r Beibl yn dweud fod pob peth drwg sy'n digwydd i ni yn digwydd o ganlyniad i bechod arbennig mae rhywun wedi ei wneud. Mae salwch, daeargrynfâu a thrychinebau yn digwydd i bobl gan ein bod yn byw mewn byd sydd wedi syrthio ... nid am fod rhywun wedi pechu. Am fwy o wybodaeth gweler Luc 13: 1-5.

Sylwa – Had y wraig

Mae pethau wedi mynd o'i le yng nghreadigaeth Duw – ond mae Duw yn paratoi dyn i ddod i ddelio gyda'r drygioni sydd wedi dod. Drwy gydol gweddill Genesis (a'r Hen Destament), bydd pawb yn chwilio am y dyn yma. Wrth gwrs, i ni heddiw, rydym yn gwybod mai Iesu Grist yw'r un sydd wedi dod i goncro'r diafol a marwolaeth ac i ddod â phobl yn ôl at Dduw.

Sylwa - Pobl yn pechu

Dro ar ôl tro, o bennod tri ymlaen byddwn yn gweld fod pobl yn bechaduriaid ac yn gwrthryfela yn erbyn Duw. Mae canlyniadau erchyll i'r gwrthryfel yma yn erbyn Duw. Ym mhob hanes yn yr Hen Destament byddwn yn cyfarfod â phobl sy'n bechaduriaid. Heddiw, nid yw pethau'n wahanol – rydym i gyd yn bechaduriaid, ac felly'n haeddu cosb Duw.

Beth yw canlyniadau troi cefn ar Dduw i bobl? Nid yw pethau i weld mor ddifrifol i gychwyn, ond yn sydyn gwelwn bethau yn gwaethygu...

Dydd 14: Genesis 4:1-16

- Pam nad yw aberth Cain yn dderbyniol i Dduw? Beth mae'n rhaid iddo'i wneud?
- Ym mha ffordd mae'r hanes yma yn debyg i hanes Adda ac Efa ym mhennod 3?
- Edrycha eto ar adnod 16 – beth yw canlyniadau pechod?

Dydd 15: Genesis 4:17-26

- Pa bethau cadarnhaol (ad. 20-22) a drwg (23-34) mae plant Cain yn eu gwneud?
- Beth sydd mor ofnadwy am beth mae Lamech yn ei ddweud?
- Ym mha ffordd mae ein byd ni heddiw yn debyg?
- Pa newyddion da sydd yn adnodau 25 a 26?

Dydd 16: Genesis 5:1-32

- Mae'r darn yma o Genesis yn edrych yn ddiflas iawn – rhestr o enwau – ond beth yw'r frawddeg sy'n cael ei hailadrodd dro ar ôl tro?
- Pam fod y frawddeg hon yn cael ei hailadrodd?
- Mae yna un dyn nad yw'r frawddeg yma yn cael ei defnyddio ar ei gyfer – pwy yw e, a pham nad yw wedi marw? (Darllena Hebraeid 11:5 hefyd.)

Dydd 17: Genesis 6:1-8

- Mae pobl yn amlhau – ond pa mor ddrwg mae pethau wedi mynd?
- Beth yw ymateb Duw?
- Oes yna obaith yn yr adnodau yma?

Dydd 18: Genesis 6:8-22

- Beth yw'r broblem gyda'r ddaear (ad. 11-12)?
- Sut mae Duw yn mynd i ddelio gyda'r drygioni (ad. 13 a 17)?
- Beth yw'r cynllun sydd gan Dduw i achub pobl?

Dydd 19: Genesis 7:1-24

- Beth sy'n digwydd yn yr hanes yma?
- Beth mae'r hanes yma yn ei ddysgu i ni am:
 - bechod?
 - gosb Duw?
 - drugaredd Duw?
- Beth oedd yn rhaid i Noa ei wneud er mwyn cael ei achub (ad. 5)?

Dydd 20: Genesis 8:1-22

- Pwy sy'n achub Noa (ad. 1) a beth mae hyn yn ei ddweud wrthym amdano?
- Sut oedd Noa yn teimlo? Beth yw'r peth cyntaf mae'n ei wneud ar ôl dod allan o'r arch?
- Sut mae Duw yn ymateb?

Sylwa – Gras Duw

Mae Duw yn berffaith ac yn gorfod cosbi pechod (sut Dduw fyddai e pe na bai yn cosbi drwg?), ond mae Duw yn raslon a charedig iawn. Mae eisiau maddau i ni. Drwy Genesis gwelwn, er gwaetha'r ffaith bod pobl yn troi cefn arno, bod Duw yn caru pobl ac eisiau iddynt droi ato. Mae hanes Noa yn dangos hyn yn glir.

Dydd 21: Genesis 9:1-17

- Gwna restr o'r bendithion mae Noa a'i deulu yn eu derbyn gan Dduw.
- Beth nad yw Noa a'i deulu i wneud (ad. 6)? Beth fydd y canlyniadau os torrir y gorchymyn yma?
- Beth yw'r cyfamod mae Duw yn ei wneud gyda phobl?

Dydd 22: Genesis 9:18-28

- Beth mae'r hanes yma yn ein dysgu am Noa?
- Er bod Noa yn ddyn roedd Duw yn ei garu, beth sy'n digwydd iddo yn y diwedd (ad. 29)?
- Am bwy ydyn ni'n darllen yn Hebraeid 11:7, a sut mae hyn yn pwysleisio gras Duw tuag atom hyd yn oed pan fyddwn yn gwneud pethau o'i le?

Dydd 23: Genesis 10:1-32

- Beth mae rhestr o enwau fel yma yn ein dysgu?
- Achau pa un o feibion Noa sy'n cynnwys y fwyaf o genedlaethau? Pam?
- Beth ydyn ni'n dysgu am gymeriad Nimrod? Nodwch lle mae'n cychwyn ei frenhiniaeth - byddwn yn dysgu mwy am hyn yfory.
- Ym mha ffordd mae pawb yn debyg i Adda a Noa?

Dydd 24: Genesis 11:1-9

- Pam bod pobl eisiau adeiladu'r tŵr? (ad. 4)
- Beth yw ymateb Duw? (cofiwch bennod 9 ad. 1)
- A fyddai'r ddaear yn lle da pe bai pobl yn cael gwneud beth a fynnent?

Dydd 25: Genesis 11:10-32

- Dyma restr arall o enwau – beth wyt ti'n meddwl yw ei bwrpas? At bwy mae'n arwain?

Dyna ni – diwedd Genesis 11. Rydym wedi gweld fel mae Duw wedi creu byd perffaith ond bod y byd wedi cael ei ddifetha gan bobl yn troi oddi wrtho a cheisio byw eu hunain. Mae pob person sydd ar y ddaear heddiw yn 'blentyn i Adda' ac felly rydym i gyd eisiau byw ein ffordd ein hunain – nid ffordd Duw. Mae Duw yn glir iawn fod gan y llwybr yr ydym yn ei gymryd ganlyniadau difrifol iawn. Beth felly? Oes gobaith i ni? Ai marw fyddwn ni fel pob person arall yn Genesis 1-11?

Cymer dy amser i ddarllen dros Genesis 1-11 eto. Ystyria'r cwestiynau isod – beth am ysgrifennu dy ymatebion i lawr i dy helpu i feddwl yn ddyfnach am yr hyn rwyt wedi dysgu?

- Beth wyt ti wedi ei ddysgu o'r penodau hyn am Dduw?
- Beth wyt ti wedi ei ddysgu o'r penodau hyn am bobl?
- Beth wyt ti wedi ei ddysgu o'r penodau hyn am ti dy hunan?
- Pam fod problemau yn y byd?

Adran 5: Iesu Grist

Pan siaradodd Duw gyda'r diafol ym mhennod tri dyma fo'n dweud... 'Mi rwyt ti wedi troi pobl oddi wrthyf fi, ac mae yna ganlyniadau mawr i'r hyn mae pobl wedi ei wneud, ond dwi am anfon dyn i achub pobl. Mae'n wir y byddi di yn brifo sawdl y dyn yma, ond bydd Ef yn sefyll ar dy ben di ac yn dy orchfygu ac achub y byd'. Pwy yw'r dyn yma?

Dydd 28: 1 Corinthiaid 15:22 ac Ioan 3:16

→ Ym mha ffordd mae pawb yn farw yn Adda?

→ Ym mha ffordd mae Iesu Grist yn dod a bywyd i bawb sy'n credu ynddo fe?

Os oes gen ti gwestiynau neu os wyt ti eisiau trafod mwy am yr hyn rwyf wedi'i ddarllen, beth am ofyn i dy rieni neu siarad gyda rhywun yn dy eglwys? Mae hefyd modd danfon cwestiynau i Llwybrau trwy'r ddolen ar dop ein gwefan, neu dros Facebook, Twitter ac Instagram - @Llwybrau.